## Symud i Wasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion: pasbort pontio

Gall symud i Wasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion (AMHS) fod yn gyfnod anodd. Efallai eich bod yn poeni beth i'w ddisgwyl neu'n nerfus am newid cymorth.

**Os ydych chi'n byw yng Nghymru ac yn cael cymorth gan SCAMHS**, dylai rhywun fod wedi dweud wrthych chi'n barod am basbortau pontio – siaradwch â rhywun yn eich tîm gofal os nad oes.

**Os ydych chi'n byw yn Lloegr**, gallwch chi ddefnyddio'r templed hwn i greu eich pasbort eich hun.

### Beth yw pasbort pontio?

Y pasbort ydy dogfen y mae SCAMHS yn gofyn i chi ei llenwi er mwyn:

- Gadael i bobl sy'n ymwneud â'ch gofal wybod mwy amdanoch chi
- Gadael iddyn nhw wybod beth hoffech chi ei weld yn digwydd pan fyddwch chi'n symud i AMHS

### Pam mae'r pasbort yn ddefnyddiol?

Gall creu pasbort roi cyfle i chi ddweud:

- Beth sy'n bwysig i chi
- Beth sydd wedi gweithio neu heb weithio yn y gorffennol
- Beth hoffech chi ei weld yn digwydd gyda'ch gofal a thriniaeth yn y dyfodol

Gallwch ei llenwi ac yna ei rhoi i'ch gweithiwr pontio neu'ch cydlynydd gofal. Gofynnwch iddynt gadw copi gyda'ch cofnodion.

### Pwy ddylai weld fy mhasbort?

Eich dewis chi yw pwy sy'n gweld eich pasbort. Efallai y byddwch chi'n:

- Cadwch gopi i chi'ch hun
- Rhoi copi i'ch tîm a gofyn iddynt ei ychwanegu at eich cofnod
- Rhoi copi i riant neu oedolyn rydych yn ymddiried ynddo

Efallai y bydd copi'n cael ei rannu â'ch tîm AMHS, ond gallwch holi rhywun yn eich tîm SCAMHS am hyn.

**Os nad ydych chi am i'ch tîm AMHS gael copi**, dylech ofyn i'ch tîm SCAMHS ei dynnu oddi ar eich cofnodion.

### Beth os ydw i am gynnwys rhagor o wybodaeth?

Mae'n well cadw eich pasbort i 2 dudalen. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i bobl sy'n ymwneud â'ch gofal ei ddarllen a'i ddeall.

Os oes darnau o wybodaeth ychwanegol sy'n wirioneddol bwysig yn eich barn chi, gallech eu nodi ar ddarn arall o bapur a gofyn am gael eu cadw gyda'r pasbort.

## Fy mhasbort pontio

<table>
<tr><td colspan="3">Amdanaf i</td></tr>
<tr><td>Enw llawn:</td><td>Dyddiad geni:</td><td>Rhagenwau:</td></tr>
<tr><td colspan="3">Rwy’n hoffi cael fy ngalw’n:</td></tr>
<tr><td colspan="3">Sut hoffwn i chi gysylltu â mi – ysgrifennwch eich cyfeiriad e-bost, eich rhif ffôn, neu’r ddau:</td></tr>
<tr><td>Enw a manylion cyswllt fy ngweithiwr allweddol neu gydlynydd gofal SCAMHS:</td><td colspan="2">Enw a manylion cyswllt fy mhrif gyswllt yn AMHS:</td></tr>
<tr><td colspan="3">Hoffwn i fy mhrif gyswllt yn AMHS gael copi o’r pasbort hwn [Ie/Na]</td></tr>
<tr><td colspan="3">Dyma hoffwn i chi ei wybod amdanaf i - meddyliwch am hoff a chas bethau, targedau, gobeithion ar gyfer y dyfodol, y bobl sy’n bwysig i mi:</td></tr>
<tr><td colspan="3">Dyma fy hanes gyda SCAMHS - pam ddechreuais i weithio gyda SCAMHS, pa fath o therapïau a chymorth rydw i wedi’u cael:</td></tr>
<tr><td>Dyma gymorth ges i gan SCAMHS sydd wedi bod yn ddefnyddiol:</td><td colspan="2">Dyma gymorth ges i gan SCAMHS sydd heb fod yn ddefnyddiol:</td></tr>
</table>

| |
|---|
| **Fy nghynllun symud ymlaen** |
| Pryderon neu gwestiynau sydd gennyf ynglŷn â symud i AMHS: |
| Dyma'r cymorth rydw i eisiau ei gael gan AMHS: |
| Dyma'r pethau sy'n anodd i mi ac yr hoffwn eu gweld yn newid yn ystod fy amser gydag AMHS: |
| Dyma'r cymorth rwy'n ei gael y tu allan i wasanaethau'r GIG - fel cymorth gan gymheiriaid, eiriolaeth, diddordebau, ysgol, gofal cymdeithasol: |
| Dyma'r pethau rwy'n eu gwneud fy hun, sy'n fy helpu i pan fyddaf i'n cael trafferthion gyda fy iechyd meddwl: |

Dyma sut rydw i eisiau i fy rhiant, gofalwr neu warcheidwad fod yn rhan o fy symudiad i AMHS:

Pa wybodaeth dydw i ddim eisiau i chi ei rhannu gyda nhw:

Eu henw a'u manylion cyswllt – gadewch hwn yn wag os nad ydych am iddynt fod yn rhan o hyn: